ATODLEN 2

Labeli swyddogol a dogfennau'r cyflenwr

# RHAN 2

## Dogfen y cyflenwr: Deunyddiau CAC

**8.** Rhaid i ddogfen y cyflenwr sy'n mynd gyda deunyddiau CAC—

(a) cynnwys y datganiadau "EU rules and standards" a "CAC material"; a

(b) datgan y manylion a ganlyn—

(i) enw neu fyrfoddau neilltuol yr awdurdod cyfrifol a'r Aelod-wladwriaeth lle y lluniwyd dogfen y cyflenwr;

(ii) rhif cofrestru'r cyflenwr;

(iii) y rhif cyfresol neu wythnosol unigol neu'r rhif swp unigol;

(iv) enw botanegol y deunyddiau planhigion;

(v) enw'r amrywogaeth a, phan fo'n briodol, enw'r clôn;

(vi) yn achos gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth, enw'r rhywogaeth neu enw'r cymysgryw rhyngrywiogaethol o dan sylw;

(vii) yn achos planhigion ffrwythau a impiwyd, enw amrywogaeth y gwreiddgyff ac enw'r brig-impiad;

(viii) ar gyfer amrywogaethau y mae cais i gofrestru hawliau amrywogaeth planhigion yn yr arfaeth ar eu cyfer, rhaid rhoi'r geiriau "proposed denomination" ac "application pending" o flaen unrhyw wybodaeth a roddir mewn perthynas â pharagraffau (v) a (vii);

(ix) y swm;

(x) y wlad lle'u cynhyrchwyd a'i byrfoddau neilltuol pan fo'n wahanol i'r Aelod-wladwriaeth lle y lluniwyd dogfen y cyflenwr;

(xi) dyddiad dyroddi dogfen y cyflenwr.